Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD LLUN, 13 MEHEFIN 2016**

## AT: HOLL AELODAU'R Y BWRDD GWEITHREDOL

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **Y BWRDD GWEITHREDOL** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 AM.** AR **DYDD LLUN, 20FED MEHEFIN, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Mrs Michelle Evans Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224470** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **MEEvansThomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# Y BWRDD GWEITHREDOL

## AELODAETH: 10  AELOD

| Y Cynghorydd | Portffolio: |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Emlyn Dole** | **Yr Arweinydd (Plaid Cymru)**<br>Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol; Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol; Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Eiriolwr Gwleidyddol y Cyngor; Penodi'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Penderfynu ar Bortffolios yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Cyswllt â'r Prif Weithredwr |
| **Y Cynghorydd David Jenkins** | **Dirprwy Arweinydd  - Adnoddau (Plaid Cymru)**<br>Cyllid a'r Gyllideb; TGCh; Rheoli Eiddo / Asedau; Caffael;  Budd-daliadau Tai; Refeniw; Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd. |
| **Y Cynghorydd Pam Palmer** | **Dirprwy Arweinydd (Annibynnol)**<br>Rheolwr Busnes y Cyngor; Hyrwyddwr Cymunedol; Ffocws Cwsmeriaid a Pholisi; Cyswllt â'r Heddlu; Diogelwch Cymunedol; Cynllunio Cymunedol Cyfiawnder Cymdeithasol/Trosedd ac Anhrefn; Hyrwyddwr Gwrth-dlodi; Cynaliadwyedd; Bioamrywiaeth; Llysgennad Ieuenctid; Materion Gwledig a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd. |
| **Y Cynghorydd Hazel Evans** | **Gwasanaethau Technegol (Plaid Cymru)**<br>Sbwriel; Glanhau Strydoedd; Gwasanaethau Cludiant; Cynnal a Chadw Tiroedd; Gwasanaethau Adeiladau;  Gwasanaethau Arlwyo; Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau; Glanhau Adeiladau; Cynlluniau Argyfwng; Llifogydd. |
| **Y Cynghorydd Meryl Gravell** | **Adfywio a Hamdden (Annibynnol)**<br>Datblygu Economaidd; Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru; Datblygu Cymunedol; Chwaraeon; Canolfannau Hamdden; Amgueddfeydd; Llyfrgelloedd; Parc Gwledig |
| **Y Cynghorydd Gareth Jones** | **Addysg a Phlant (Plaid Cymru)**<br>Ysgolion; Gwasanaethau Plant; Anghenion Addysgol Arbennig; Diogelu; Cartrefi Seibiant; Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol; Addysg i Oedolion a Dysgu Cymunedol;  Gwasanaethau Ieuenctid; yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; Llysgennad yr Eisteddfod |
| **Y Cynghorydd Linda Evans** | **Tai (Plaid Cymru)**<br>Tai (Cyhoeddus a Phreifat); Cydraddoldeb; Materion Pobol Hŷn |
| **Y Cynghorydd Jim Jones** | **Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd (Annibynnol)**<br>Gorfodi Materion Amgylcheddol; Sbwriel; Gwastraff Di-drwydded; Baw Cŵn; Gwasanaethau Parcio; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd. |
| **Y Cynghorydd Mair Stephens** | **Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio (Annibynnol)**<br>Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Compact Simpson; Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth; Y Tîm Effeithlonrwydd Corfforaethol; Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg; Llysgennad Cynghorau Tref a Chymuned. |
| **Y Cynghorydd Jane Tremlett** | **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Annibynnol)**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl;Cysylltu/ Cydweithredu/Integreiddio â'r GIG; Hyrwyddwr Gofalwyr; Llysgennad Anabledd; Hyrwyddwr Gofal Dementia; Hyrwyddwr 50+ a Chynrychiolydd Grwp Llywio |

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y**

   **3 .1 9FED O FAI, 2016;** 17 - 20

   **3 .2 23AIN O FAI, 2016.** 21 - 24

4. **CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

5. **CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD:-**

   **5 .1 CWESTIWN GAN MR STEVE HATTO I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

   *"Rydym wedi cyfnewid gohebiaeth helaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin gydag un pwnc yn ymwneud â risg diogelwch ynghlwm wrth gludo disgyblion i Ysgolion Cyfrwng Saesneg eraill. Ond safbwynt yr Awdurdod Addysg Lleol ar y mater hwn yw mai dewis rhieni yw peidio â chofrestru ein plant yn Llangennech ac felly cyfrifoldeb rhieni yw cludo eu plant i ysgolion eraill. Ond mae'r Cyfrwng Saesneg yn cael ei dynnu'n ôl gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Nid dewis rhieni yw tynnu'r plant o Langennech, ond gweithred a orfodir arnom i fynd â'n plant i Gyfrwng Saesneg addas. Ni all pob plentyn ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am amryw resymau. Ond mae 170 o leoedd gwag cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ardal leol ym Mrynsierfel a Ffwrnes. Ond mae'r tair ysgol cyfrwng Saesneg arall, Bryn, Bynea a'r Hendy, eisoes y tu hwnt i'w capasiti. Os yw'r Cyfrwng Saesneg i'w dynnu'n ôl, a allwch esbonio sut mai dewis rhieni yw hyn? A ble byddwch yn darparu Addysg Cyfrwng Saesneg amgen i'n plant?"*

   **5 .2 CWESTIWN GAN MS NIKKI LLOYD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

   *"O'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, y mae'n amlwg bod y ffigurau wedi'u gweithio gan unigolion i ategu sefyllfa benodol. Mae 121 o ddisgyblion yn yr ysgol nad ydynt yn byw yn Llangennech. Ond mae 96 o blant o'r pentref*

*yn teithio i ysgolion eraill y tu allan i'r ardal. Mae 81 ohonynt yn mynychu cyfrwng Saesneg arall. Petai'r 81 o blant hynny yn gallu mynychu eu hysgol gymunedol bydda'r ffigurau yn adlewyrchu angen tebycach i 50/50 am gyfrwng Saesneg/Cymraeg yng nghymuned Llangennech. Yn y gorffennol, cafodd rhieni a ddymunai geisio cyfrwng Saesneg yn Llangennech eu troi ymaith a'u hysbysu bod yr ysgol yn llawn. Ond nid oedd hyn yn wir a bu i rai rhieni brofi hyn mewn tribiwnlys a chawsant wedyn eu derbyn. Pam y gwrthodwyd lle i blant yn Saesneg pan oedd capasiti'r dosbarthiadau Saesneg hanner gymaint â chapasiti'r dosbarthiadau Cymraeg ac roedd yr angen am gyfrwng Saesneg yn amlwg yno fel y gallwch weld o'r ffigurau uchod? A sut gall yr ysgol roi cyhoeddusrwydd i'w rhinweddau gwyrdd pan ei bod yn weithredol gefnogi symud cynifer o ddisgyblion i mewn ac allan o'r pentref?"*

**5 .3 CWESTIWN GAN MRS MICHAELA BEDDOWS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Anghenion Addysgol Arbennig: Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig sydd fel arfer yn cael eu cynghori i fynd i ffrwd cyfrwng Saesneg neu iaith y cartref yn unig. Mae plant sydd ag oedi cyffredinol yn cael trafferth gydag un iaith heb sôn am ddwy, felly drwy waredu'r ffrwd ddeuol byddai hyn yn eithrio'r plant hyn rhag mynychu'r ysgol. Ni all plant sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ymdopi â newid mewn trefn, felly petaent yn cychwyn ac wedyn yn cael trafferth mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg ac wedyn yn gorfod symud i ysgol Cyfrwng Saesneg, byddai'r newid hwnnw yn cael effaith enfawr arnynt. Mae llawer o blant sydd ag anawsterau dysgu, yn arbennig Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, yn teimlo'n ynysig iawn hyd yn oed mewn amgylchedd â chymorth. Pe cânt eu gwneud i fynychu ysgol y tu allan i'r ardal byddai hyn yn eu hynysu hyd yn oed yn bellach o'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Sut yr esgeuluswyd hyn a pham na aethpwyd i'r afael â hyn?"*

**5 .4 CWESTIWN GAN MRS JACQUELINE SEWARD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*Yn dilyn yr adroddiad a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn ag ymatebion o'r broses ymgynghori cysylltodd nifer o rieni â ni i ddweud nad oedd eu profformâu wedi'u cynnwys yn y ddogfen er iddynt gael eu cyflwyno ac iddynt gael derbynebau. O'r ymatebion a dderbyniwyd, byddai'n ymddangos bod cefnogaeth gref dros gadw'r ffrwd ddeuol gyda 154 o ymatebion wedi'u nodi a deiseb a*

*lofnodwyd gan 505 o bobl (sydd eisoes wedi'i chyflwyno). Bu'r grŵp yn erbyn yn agored wrth rannu eu henwau a'u perthynas â'r ysgol, tra bod y grŵp sy'n ymgyrchu o blaid wedi parhau i weithredu'n ddirgel gan ddymuno peidio â chael eu henwi, gyda mwy na 30 o gyflwyniadau di-enw. Roedd llawer o'r ymgyngoreion a oedd o blaid newid yn gyn-athrawon, cynghorwyr a phenaethiaid, a staff presennol. Awgrymwyd mai cymharol gyfartal o blaid ac yn erbyn oedd yr ymatebion. Cymhareb cyfanswm y nifer yn erbyn o gymharu ag o blaid yw 5:1. Sut gall hyn gael ei ystyried yn gyfartal pan fo'r ymgyngoreion sy'n cefnogi'r newid yn ymddangos nad ydynt yn cynnwys llawer o farn rhieni, a'i bod yn ymddangos nad yw llawer o'r rhai yn erbyn y newid wedi'u cynnwys?*

**5 .5 CWESTIWN GAN KAZ DEACON I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Credwn y gallai rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparoch fod yn rhagfarnllyd tuag at gyflawni'r canlyniad a benderfynwyd ymlaen llaw a hoffem dynnu eich sylw at ddatblygiad diweddar yn ymwneud â'r ffaith nad oedd rhieni yn ymwybodol bod y dosbarthiadau derbyn yn Llangennech yn y Gymraeg yn unig. Mae hyn hefyd yn ategu ein pryderon bod ffigurau wedi'u gweithio ac nad oedd y Ffrwd Saesneg yn gostwng yn naturiol a bod, yn hytrach, rwystrau wedi'u rhoi yn ffordd y rhieni i gyflawni'r nod Cyfrwng Cymraeg. Felly, sut gallwch gefnogi ymgynghoriad sy'n dangos nad oes unrhyw gynnydd yn y galw am y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae gan ddisgyblion yn Llangennech y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy fynychu'r ffrwd Gymraeg. Byddai'n wrthgynhyrchiol i'r nod o gynyddu nifer y disgyblion a all ddefnyddio'r Gymraeg petai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg oherwydd y newid hwn. A oedd yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r wybodaeth anghywir a ddarparwyd i rieni ynglŷn â'r dosbarthiadau derbyn a'r farn wahanol rhwng yr hyn a ddwedodd Mr Sully a'r addewidion a roddwyd gan yr ysgol?"*

**5 .6 CWESTIWN GAN MRS KAREN HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Bu nifer o fethiannau yn y broses ymgynghori, gyda'r pennaeth yn cyfaddef ar 26ain Ebrill iddynt fod yn naïf ynglŷn â'r broses ymgynghori. Derbyniom ohebiaeth yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwybodol o gynnig gan yr Awdurdod Addysg Lleol ym mis Medi 2014, a llythyr dilynol o gynnig ym mis Ionawr 2015 i'r ysgol sy'n cyfeirio at 5 mater a gytunwyd fel pecyn yr oedd yn rhaid eu cymryd fel cyfanwaith. Gan fynnu*

*bod yn rhaid i'r pecyn gael ei dderbyn gan y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol fel cyfanwaith ac eisoes wedi'i dderbyn ym mis Chwefror 2015, y mae'n gwneud inni feddwl a oedd y fargen hon eisoes wedi'i tharo. Pam na wnaed hyn yn hysbys i'r holl randdeiliaid ym mis Medi 2014 gan ddangos didwylledd a thryloywder?"*

**5 .7 CWESTIWN GAN MR NIGEL HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Sylwadau a wnaed gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yn dilyn cyfarfod cwrtais ar 26ain Ebrill a dystiwyd gan lawer, gan gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod ei hun. Meddai cadeirydd y llywodraethwyr fod cael disgyblion sy'n siarad Saesneg yn yr ysgol yn andwyol i addysg y disgyblion Cymraeg. Teimlwn fod y sylw hwn yn crynhoi holl ymagwedd yr Awdurdod Addysg Lleol a bwrdd y llywodraethwyr wrth geisio ymagwedd elitaidd ar draul disgyblion Saesneg brodorol o'r pentref. Yn sicr, ni ddylai barn bersonol fod yn rhan o hyn ac fel cadeirydd y llywodraethwyr, mae'n cynrychioli'r ysgol gyfan a'r holl blant ynddi. Er gwaethaf cwyn swyddogol a wnaed yn erbyn y sylwadau hyn, nid yw corff llywodraethu yr ysgol yn teimlo bod y cadeirydd wedi siarad yn amhriodol. Ymhellach, gwrthododd y cadeirydd fynd â'n mandad i gadw'r ffrwd ddeuol i'r Awdurdod Addysg Lleol. Fe'n hysbyswyd nad oedd ganddynt y pŵer i wneud hyn ac yn ei farn ef byddai'n cefnogi'r newid hyd yn oed petai'r holl rieni eisiau cadw'r ffrwd ddwbl. Ond mae gohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau bod y corff llywodraethu yn ymreolaethol a bod ganddo'r pwerau i newid y categori iaith. Rôl corff llywodraethu yw cefnogi holl blant a rhieni'r ysgol? Sut mae'r sylwadau hyn yn cefnogi'r Plant Cyfrwng Saesneg ac a yw'r sylwadau wedi'u cefnogi gan yr Awdurdod Addysg Lleol?"*

**5 .8 CWESTIWN GAN MR ROBERT WILLOCK I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Cynigodd y grŵp awgrym mewn cyfarfod gyda rhai cynghorwyr, a chafodd hyn ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori fel Dewis 8a a gefnogwyd gan Dr Slader a'r Cyngh Gwyneth. Pam nad yw'r Awdurdod Addysg Lleol yn barod i gefnogi dull Saesneg + fel ateb arloesol yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'n anodd neu'n amhosib i rieni arfer eu hawl i benderfynu rhwng cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg sef yr achos yn Llangennech o gymharu â dewisiadau cyfrwng*

*Saesneg eraill yn Llanelli lle mae darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gael yn agos i ysgolion cyfrwng Cymraeg?"*

**5 .9 CWESTIWN GAN MRS RHIANEDD RHYS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Cyngor am ei weledigaeth a hoffwn ofyn, ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith fod disgyblion mewn addysg Gymraeg yng Nghymru (gan gynnwys disgyblion Ysgol Babanod ac Iau Llangennech) ar y cyfan yn perfformio'n well mewn asesiadau athrawon ac arholiadau allanol na disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a bod unrhyw amrywiadau fel arfer yn adlewyrchu ansawdd yr addysgu yn hytrach na chyfrwng yr addysgu?*

**5 .10 CWESTIWN GAN MR MICHAEL REES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"A minnau yn siaradwr di-Gymraeg a ddewisodd addysg cyfrwng Cymraeg i fy mhlant, a fyddai aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn rhannu'r pleser a'r boddhad personol yr wyf wedi ei gael dros y blynyddoedd yn gweld fy mhlant yn dod yn oedolion dwyieithog hyderus sy'n defnyddio'r ddwy iaith yn eu gwaith a'u bywyd bob dydd, a chydnabod llwyddiant ysgubol addysg cyfrwng Cymraeg a'r amrywiol fanteision y mae dwyieithrwydd yn ei gynnig i unigolion o bob cefndir cymdeithasol?"*

**5 .11 CWESTIWN GAN MS ELIN GRIFFITHS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith fod disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion Cymraeg, gan gynnwys Ysgol Llangennech, ar y cyfan yn perfformio cystal os nad gwell yn y pynciau craidd na disgyblion mewn addysg Saesneg?"*

**5 .12 CWESTIWN GAN MRS HELEN MAINWARING I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:**

*"Cyhoeddwyd eich 'Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg ar 2014-2017' yn 2013 lle nodir yn glir eich bod yn awyddus i symud Ysgol Llangennech ar hyd y continiwm ieithyddol. Pa gamau y byddwch yn cymeryd i sicrhau bod plant Llangennech a Sir Gar yn datblygu'n ddinasyddion dwyieithog?"*

**5 .13 CWESTIWN GAN MRS MANON WILLIAMS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith nad oes unrhyw ymchwil rhyngwladol yn profi fod addysg drochi yn niweidiol i ddatblygiad plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bod gan Sir Gâr brofiad helaeth o ddarparu addysg a gofal o'r radd flaenaf i blant ADY drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg?"*

**5 .14 CWESTIWN GAN MRS RACHEL BENDALL I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Dros y blynyddoedd diwethaf mae canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardal Llangennech wedi gostwng o 53.3% yn 1991 i 39.9% yn 2011 - ydy'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno taw sefydlu Ysgol Gymraeg yn y pentref er mwyn rhoi sgiliau dwyieithog i bawb yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal y dirywiad hwn?"*

**5 .15 CWESTIWN GAN MR CURTIS ROBERTS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"A yw aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol bod gan y mwyafrif helaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg strategaethau ar waith i gynorthwyo teuluoedd di-Gymraeg gyda gwaith cartref , sy'n cynnwys anfon nodyn dwyieithiog adref yn egluro'r tasgau y mae angen eu cwblhau?"*

**5 .16 CWESTIWN GAN MRS CATHRIN JONES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith mai addysg drochi yn yr iaith darged sydd wedi cael ei brofi i fod y*

*model mwyaf llwyddiannus ar draws y byd o ran sicrhau dwyieithrwydd cyflawn mewn plentyn?"*

**5 .17 CWESTIWN GAN MR ALAN WARNER I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn sylweddoli fod rhieni/gwarcheidiaid wrth drafod gwaith cartref yn Saesneg gyda'u plant mewn gwirionedd yn gallu datblygu eu sgiliau trawsieithu (trans-languaging) sy'n cael ei ystyried gan arbenigwyr iaith fel sgil lefel uchel?"*

**5 .18 CWESTIWN GAN MR MARTYN DAVID WILLIAMS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith fod asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y Saesneg fel pwnc wedi bod yn gyson uwch ymhlith disgyblion sydd wedi derbyn addysg Gymraeg o'u cymharu â disgyblion gafodd addysg drwy gyfrwng y Saesneg?"*

**5 .19 CWESTIWN GAN MR OWAIN GLENISTER I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

*"Gan ystyried y ffaith fod 65% o boblogaeth y byd yn siarad o leiaf dwy iaith, ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith nad oes ymchwil academaidd wedi ei gyhoeddi unrhywle yn y byd sy'n profi fod addysg drochi'n cael effaith niweidiol ar ddatblygiad addysgol plentyn – i'r gwrthwyneb mae ymchwil yn Nghanada yn profi fod lefelau IQ plant mewn addysg drochi ddwyieithog yn gyson uwch na phlant mewn addysg uniaith ac ymchwil o Gatalwnia'n profi fod plant mewn addysg drochi ddwyieithog yn well am rhesymu ac yn fwy creadigol?"*

## 6. CWESTIYNAU A GYFEIRIWYD I'R BWRDD GWEITHREDOL GAN Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT:-

**6 .1 CWESTIWN GAN MR DARREN SEWARD:-**

*"Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi llunio dogfen sy'n disgrifio ei gynnig i GAU/DIDDYMU Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ac agor Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech newydd a fyddai'n ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg*

*yn unig. Pam y mae CSC yn gwthio cyfarwyddebau Cynulliad Cymru ynghylch y Gymraeg mor bell pan nad yw hynny'n digwydd mewn siroedd eraill fel Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Chasnewydd?"*

**6 .2 CWESTIWN GAN NIKKI LLOYD:-**

*"Ar hyn o bryd mae 121 o ddisgyblion yn yr Ysgol nad ydynt yn byw ym mhentref Llangennech. Fodd bynnag, mae 96 o blant sy'n byw yn y pentref yn teithio i ysgolion eraill y tu hwnt i'r ardal. Dim ond 15 o'r plant hynny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n golygu bod 81 yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill. Pam y fath wahaniaeth? Gallai rhai o'r rhain fod wedi cael lle yn Llangennech ond eu bod wedi eu gwrthod gan beri bod y ffrwd Saesneg yn ymddangos fel petai'n dirywio."*

**6 .3 CWESTIWN GAN NIKKI LLOYD:-**

*"Mae gennym eisoes un rhiant y gwrthodwyd lle i'w blentyn yn y Bryn gan fod 54 o geisiadau am 30 o leoedd yn unig. Mae'r Hendy hefyd yn llawn; ble'r rydych yn mynd i ddarparu ar gyfer y rhieni sydd yn dymuno neu sydd ANGEN addysgu eu plant drwy gyfrwng y Saesneg?"*

**6 .4 CWESTIWN GAN ROBERT WILLOCK:-**

*"O blith y 121 o blant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd mae 91 yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Pam felly? pan fo ysgol newydd yn y Ffwrnes sydd â 132 o leoedd gwag, a 38.5 o leoedd gwag yn ysgol Brynserfiel yn ôl adran 2.3 o'r ddogfen ymgynghori. Mae lleoedd gwag yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nid yw hyn yn gyson â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n datgan nad oes mwy na 10% o leoedd gwag i fod. Yn ôl gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin mae 1,710 o leoedd gwag yn yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin - ystadegau yw'r rhain o wefan CSC. Nid yw hyn yn cyfiawnhau creu rhagor o leoedd. Mae Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn datgan y dylai cyrff perthnasol, wrth ddatblygu cynigion, roi sylw i'r cynlluniau lleol ar gyfer datblygu economaidd a datblygu tai. Pam na roddwyd ystyriaeth i'r 91 o dai sy'n cael eu codi yn yr Hendy ac i'r 700 a mwy o dai sydd ar y gweill ym Mhontarddulais? Yn sicr ddigon byddai hyn yn effeithio'n fawr ar yr ysgolion cyfagos. Yr Hendy yw un o'r ysgolion agosaf ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Saesneg os gweithredir y cynnig hwn. Fodd bynnag mae Ysgol Llanedi yn wynebu cael ei chau, a'r cyngor yw symud i'r Hendy. Mae Ysgol yr Hendy bron â bod yn llawn yn barod, ac fel ysgol ddwy ffrwd mae wedi'i chlustnodi fel ysgol fydd yn cael ei newid yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn unig. Yr ysgol Saesneg ei chyfrwng agosaf arall yw Ysgol y Bryn, ond mae'r*

*Sir wedi bod yn dosbarthu llythyron gwrthod yn barod gan eu bod wedi cael 54 o geisiadau hyd yn hyn am ddim ond 30 o leoedd. Yn ogystal â bod yr ysgol newydd arfaethedig yn anaddas i'r diben gan nad yw'n gwasanaethu ei chymuned, mae'n ymddangos nad oes gan plant sy'n siarad Saesneg dewisiadau amgen gerllaw?"*

**6 .5 CWESTIWN GAN JACQUELINE SEWARD:-**

*Ar ôl cau ysgol a cholli ffrwd iaith yn sgil hynny, dylid cynnig darpariaeth sydd o leiaf o'r un safon i ddysgwyr yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013. Fodd bynnag mae Llangennech yn Wyrdd ar hyn o bryd. Mae'r Hendy yn Felyn ac mae'r Bryn yn Oren. Sut mae hyn yn gyfwerth?*

**6 .6 CWESTIWN GAN NIGEL HUGHES:-**

*"Mae'r ddogfen ymgynghori yn ddogfen wallus sydd heb gydnabod y rheiny o bentref Llangennech sy'n cael eu rhoi dan anfantais gan y cynigion. Mae datgan nad oes neb yn cael ei effeithio gan y newidiadau arfaethedig hyn yn beth naïf ac anwybodus ac yn dangos nad yw'r Awdurdod wedi rhoi 'sylw dyledus' o dan y Ddeddf Dyletswydd Gyhoeddus i'r rheiny a effeithiwyd, wrth iddynt ddweud yn grwn nad ydynt yn bodoli. Drwy wneud hyn nid ydynt wedi cwmpasu'r agweddau Iechyd a Diogelwch neu broblemau lleoedd yn yr ysgolion eraill. Wrth gerdded i'r Hendy, er enghraifft, bydd croesi ffordd ddeuol yn peryglu bywydau. Mae CrashMap ar gael ar-lein sy'n dangos bod un ddamwain yn digwydd bob deufis ar gyfartaledd ar y ffordd benodol honno. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn amlygu'r brys i gyrraedd canlyniad a bennwyd ymlaen llaw, waeth beth fo'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y broses. Credwn y gallwn ddangos tystiolaeth bod naill ai'r Awdurdod Addysg Lleol neu'r corff llywodraethu, neu'r ddau, wedi methu â chydymffurfio â Chôd Trafnidiaeth Ysgolion 2013 ac o bosibl y gyfraith. Ydych chi o'r farn ei bod hi'n dderbyniol peryglu plant bach yn ddyddiol fel hyn?"*

**6 .7 CWESTIWN GAN DARREN SEWARD:-**

*"A oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal pan fo gennym ddau ddarparwr eisoes? Mae angen rhoi ystyriaeth i ffactorau penodol o ran cynigion i ychwanegu neu i waredu dosbarthiadau meithrin fel yr amlinellwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013. Dylai cyrff perthnasol roi ystyriaeth i ffactorau penodol: safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywdra unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin; a oes angen rhagor o leoedd meithrin yn yr ardal?; • lefel y galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu*

*ddarpariaeth ac iddi natur grefyddol; • effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector; ac • y graddau y bydd cynigion yn cydblethu addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant, neu'n gydnaws â dull integredig. Nid oes tystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori fod y rhain, ac effaith y cynigion ar ddarparwyr sector preifat eraill, wedi'u hystyried."*

**6 .8 CWESTIWN GAN MICHAELA BEDDOWS:-**

*"Anghenion Addysgol Arbennig: Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig a gynghorir fel arfer i fynd i ffrwd Saesneg yn unig, neu i'r un ffrwd ag iaith eu cartref. Mae plant sydd ag oedi cyffredinol yn ei chael hi'n anodd ag un iaith, heb sôn am ddwy, felly drwy gael gwared ar y ddwy ffrwd bydd y plant hyn yn cael eu cau allan o'r ysgol. Nid yw plant sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn gallu ymdopi o gwbl â newid i'w trefn feunyddiol felly, pe baent yn dechrau mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac yna'n methu ag ymdopi ac yn gorfod symud i ysgol cyfrwng Saesneg, fe fyddai'r newid hwnnw'n cael effaith anferthol arnynt. Sut y cafodd hyn ei esgeuluso a pham na chafodd sylw?"*

**6 .9 CWESTIWN GAN STEVE HATTO:-**

*"Mae'r ffigyrau wedi cael eu hystumio - O graffu ar y wybodaeth a ddarparwyd gan yr AALl, ac oherwydd bod gan y gr?p wybodaeth am yr ysgol, mae'n amlwg bod y ffigyrau wedi eu hystumio gan unigolion i gyfnerthu sefyllfa benodol. Gallwn ddangos bod y ffrydiau Saesneg presennol yn yr ysgol yn cyfrif am fwy na 30% o gyfanswm y disgyblion. Mae'r ymgynghoriad yn datgan bod cyfanswm o 186 yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Babanod Llangennech yn 2015. Nid yw'r ffigwr hwn yn gywir gan ei fod yn cynnwys yr holl ddisgyblion yn nosbarthiadau Derbyn 1 a 2, sy'n gyfanswm o 94 o ddisgyblion, heb ystyried a ydynt wedi'u cofrestru i gamu ymlaen i'r ffrwd Saesneg. Maent wedi eu cam-glustnodi at ddibenion y ddogfen ymgynghori fel disgyblion ffrwd Gymraeg. Hefyd os cynhwyswn y 27% sy'n dod o'r tu hwnt i'r ardal, ynghyd â'r posibilrwydd o golli'r ffrwd Saesneg, bydd y rhagamcanion cyfredol yn dangos y bydd mwy na 50% o ddisgyblion Ysgol Llangennech yn dod o'r tu hwnt i'r ardal. A ydych chi'n credu felly fod gennym 'yr ysgol briodol yn y man priodol ac a ydych chi'n gallu cadarnhau a yw'r ffigyrau hyn yn gywir?"*

**6 .10 CWESTIWN GAN KAREN HUGHES:-**

*"Mae oddeutu 11 o ysgolion dwy ffrwd yn Sir Gaerfyrddin sydd,*

*yn ôl Strategaeth yr Iaith Gymraeg, yn cael eu clustnodi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Rhaid cydnabod na fyddai'r ysgolion hyn i gyd yn addas, ar sail logisteg, oherwydd maen nhw'n ysgolion dwy ffrwd am reswm, felly sut a phwy sy'n asesu'r galw a'r priodoldeb?  A gynhaliwyd ymarfer i fwrw golwg ar y gorwel o ran cymuned Llangennech? h.y. i asesu sut le fydd pentref/poblogaeth Llangennech ymhen 5, 10, 15 mlynedd?  Wrth i ragor o dai newydd gael eu hadeiladu, y mewnlifiad o bobl, lleoliad y pentref wrth goridor yr M4, a allwn ni ddweud yn hyderus y bydd Ffrwd Gymraeg yn Unig yn bodloni'r gofynion hyn o ystyried bod 80% o'r boblogaeth eisoes yn siarad Saesneg yn unig. Wedi'r cyfan, daw 27% o ddisgyblion o'r tu hwnt i'r pentref ac nid yw ffigurau'r pentref yn dangos bod cynnydd yn y galw am y Gymraeg. Hefyd, nid yw'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei hasesu'n gywir, os o gwbl. Nid oes cyfeiriad at siaradwyr Saesneg yn gwerthfawrogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn llai os ydynt yn mynychu ffrwd Saesneg yn Unig; mae mwy o bobl yn debygol o roi cynnig ar y ffrwd Gymraeg os ydynt yn gwybod y gallant gwympo'n ôl ar y Saesneg yn yr un ysgol. Bydd hyn yn cael effaith i'r gwrthwyneb. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn fach ac nid yw'n cyd-fynd â'r ddemograffeg ieithyddol nac ystadegau cyfrifiad 2011. Pam nad yw'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried?"*

**6 .11 CWESTIWN GAN ROBERT WILLOCK:-**

*"Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn Asesiad o Effaith o gwbl. Nid yw wedi cydnabod unrhyw risgiau neu risg a aseswyd ganddynt (gan roi sgôr gadarnhaol, negyddol, neu niwtral). Byddech yn disgwyl y byddai sylw wedi ei roi i'r effaith ar ysgolion cyfagos, i'r effaith ar y rhieni a'r teuluoedd, i'r effaith ar y disgyblion, i'r goblygiadau o ran teithio, i'r effaith ar ddemograffeg y gymuned, i'r effeithiau amgylcheddol, i'r effaith ar weithgareddau cymunedol ac i'r effaith ar y trigolion. Y rhain yw'r agweddau y mae'n debygol y byddent yn cael eu hasesu'n negyddol, ac maent wedi eu hesgeuluso'n llwyr! Pam?"*

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GAU YSGOL BABANOD LLANGENNECH AC YSGOL IAU LLANGENNECH A SEFYDLU YSGOL GYMUNEDOL GYNRADD LLANGENNECH.** | 25 - 198 |
| **8.** | **Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - BWRIAD I NEWID CATEGORI IAITH YSGOL BRO MYRDDIN O DWYIEITHOG (2A) I'R GYFRWNG GYMRAEG (CC).** | 199 - 272 |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - ADOLYGIAD DWYFLYNYDDOL. | 273 - 292 |
| 10. | ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR. | 293 - 320 |
| 11. | DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF. | 321 - 328 |
| 12. | TROSGLWYDDO PARCIAU, LLEOEDD CHWARAE A LLECYNNAU AMWYNDER - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL. | 329 - 340 |
| 13. | ASESIAD DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE A'R CYNLLUN GWEITHREDU 2016. | 341 - 608 |
| 14. | ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNGHYLCH EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL YN SIR GAERFYRDDIN YN 2015/16. | 609 - 670 |
| 15. | CYNHADLEDD DINASOEDD DYSG UNESCO. | 671 - 674 |
| 16. | DIWYGIADAU I BOLISI DEFNYDD A MONITRO E-BOST. | 675 - 684 |
| 17. | POLISI AR DDEFNYDD DDYFEISIADAU SYMUDOL. | 685 - 694 |
| 18. | YMGYNGHORI YNGHYLCH RHEOLEIDDIO CAFFAEL YNG NGHYMRU. | 695 - 708 |
| 19. | UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972. | |
| 20. | NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | |
| 21. | GOSOD TIR YM MHARC PEN-Y-BONT, GLANAMAN AR BRYDLES I GLWB PÊL-DROED CWMAMAN | 709 - 714 |